Ken Skates AC
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

21 Hydref 2019

Annwyl Ken,

**Comisiynydd Trafnidiaeth**

Ar 9 Hydref cynhaliodd y Pwyllgor ei sesiwn graffu flynyddol gyda Chomisiynydd Traffig Cymru. Mae'r trawsgrifiad ar gael yma. Yn ystod y sesiwn gwnaed sawl pwynt yr hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth amdanynt, neu glywed eich barn arnynt.

Roedd y Pwyllgor yn bryderus i glywed am 'densiynau' o ran y berthynas â'r sefydliad sy'n darparu cefnogaeth weinyddol i'r Comisiynwyr Traffig, sef yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA). Mae'n ymddangos bod y tensiynau hyn yn achosi problemau gweithredol, yn ogystal â rhai pryderon ynghylch 'diffyg atebolrwydd'. Rhoddodd y Comisiynydd wybod i'r Pwyllgor nad oedd yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau yn ymlynu wrth y ddogfen fframwaith gyfreithiol y bwriadwyd iddi lywodraethu'r berthynas rhwng Llywodraeth y DU, Comisiynwyr a'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau. Soniodd hefyd fod adolygiad o'r cytundeb hwn cyn bo hir y gallai 'fod cyfle i Lywodraeth Cymru roi mewnbwn iddo'. Awgrymodd y Comisiynydd y dylid cael proses sicrwydd flynyddol ar gyfer Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, yn ogystal â'r Ysgrifennydd Gwladol, i fod yn sicr bod yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau yn cyflawni ei hamcanion.

Byddem yn gwerthfawrogi cael eich barn ar effeithiolrwydd y fframwaith cyfreithiol yng ngoleuni sylwadau'r Comisiynydd, gan gynnwys unrhyw broblemau y gallai'r dull hwn o gydgysylltu eu codi ar gyfer Cymru, ac unrhyw gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i geisio mynd i'r afael â'r rhain.

Soniodd y Comisiynydd am y seminarau y mae wedi'u cynnal ar gyfer gweithredwyr Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSV). Dyluniwyd y seminarau i roi gwybodaeth ymlaen llaw i weithredwyr PSV fel nad ydynt yn canfod eu bod yn torri'r gyfraith yn nes ymlaen, ac yn ôl y Comisiynydd maent yn effeithiol. Yn anffodus, yn sgîl maint tîm bychan y Comisiynydd nid yw'n gallu gweithio drwy'r rhestr lawn o weithredwyr PSV. A fydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Comisiynydd nesaf i gynyddu faint sy'n bresennol yn y seminarau? A fydd

Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried gweithio gyda'r Comisiynydd nesaf i ddatblygu a darparu seminarau tebyg ar gyfer gweithredwyr Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV)?

Gwnaeth y Comisiynydd Traffig yn glir ei fod yn teimlo nad yw cofrestru bysiau yn ei ffurf bresennol yn gweithio cystal ag y gallai. Teimlai'r Comisiynydd y byddai ei swyddfa ef yn fwy addas ar gyfer y dasg na'r system bresennol lle ymdrinnir â chofrestriadau Cymru mewn swyddfa yn Leeds. Mae Traveline Cymru hefyd wedi awgrymu, ar wahân, y gall ymgymryd â'r rôl hon. A oes modd i chi nodi eich syniadau hirdymor ynghylch y broses cofrestru bysiau, gan gynnwys sut y gellir defnyddio cymhwysedd datganoledig yn y dyfodol?

Bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod y Panel ar Nitrogen Deuocsid gyda'r Comisiynydd. Roedd yn ddealladwy ei fod yn amharod i ateb gormod o gwestiynau ar y mater, gydag ymgyfreithiad ar y gweill, ac nid oedd ychwaith eisiau achub y blaen ar unrhyw gyhoeddiadau y gallai Llywodraeth Cymru eu gwneud. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar felly pe gallech ddarparu rhagor o fanylion am y Panel, gan gynnwys ei gyfansoddiad, ei gylch gorchwyl, y dull gweithredu y gofynnwyd iddo ei ddefnyddio, a phryd y cyhoeddir casgliadau ei waith?

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn clywed eich barn ar ddull Llywodraeth Cymru o drafod gyda Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw symudiadau tuag at ddatganoli cyfrifoldeb am y canlynol:

- Adleoli gwaith gweinyddu trwyddedu gweithredwyr Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru, i Swyddfa'r Comisiynydd Traffig yng Nghaernarfon.
- Gwella synergeddau rhwng Llywodraeth Cymru / yr Asiantaethau Cefnffyrdd a'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA).

Yn gywir,

Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau